



### Canolradd (De)

## Chwarae'r Gêm - Act 3



*(Nodyn i'r Tiwtor: Os dych chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y De) bydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 5.)*

Mae S4C yn San Germano i ffilmio'r gêm. Ffred Gravell a Rob Puw sy'n gwneud y sylwebaeth.

Ffred G: Wel, Rob? Gêm hawdd i Gaerddinas heno?

Rob P: Ie. Siŵr o fod Ffred. Caerddinas yw'r ffefrynnau.

Ffred G: Ti sy'n mynd i ddisgrifio'r tîm, Rob?

Rob P: Ie. Wel, Medwin Hughes sy yn y gôl. Fe yw'r un oedd yn y gôl yn erbyn Chelsea pan gollon nhw 5-0 ond mae e wedi gwella.

Ffred G: Pwy sy'n amddiffyn gyda fe?

Rob P: Roberts a Derbyshire sy'n amddiffyn heno a'r ymosodwyr yw Howells a Griffiths.

Ffred G: Dyw Michael Jones ddim yn chwarae?

Rob P: Nac ydy, yn anffodus.... *(Maen nhw'n clywed chwiban)* Dyna ni, Ffred, y chwiban! Mae'r gêm wedi dechrau! Drosodd i ti!

Ffred G: Diolch, Rob. Caerddinas sy'n ymosod. Ymosod da gan Howells

sy'n ddeunaw oed heddiw. Dyma chwaraewr fydd yn chwarae yn nhîm Cymru yn fuan. Pasio da i Griffiths a Griffiths sy'n ymosod nawr... Griffiths sy â'r bêl... Mae'n pasio i Howells a ...o! Mae Howells wedi baglu ac wedi colli'r bêl.

Rob P: San Germano sy â'r bêl nawr. Mae'r bêl yn taro pen Roberts....ac mae'r bêl ma's. Carestia sy'n mynd i daflu'r bêl i mewn.

Ffred G: Carestia yw'r chwaraewr brynodd fflat yn y Rhondda yr wythnos diwetha?

Rob P: Ie. Mae teulu gyda fe yn y Rhondda. Mae'r bêl i mewn a Mastrangelo sy'n rhedeg gyda'r bêl. Mae e'n pasio i Carestia. Mae Derbyshire yn taclio ond Carestia sy â'r bêl! Mae'n cicio. Mae Medwin Hughes yn neidio ond mae'n gôl i San Germano!!! Mae San Germano yn ennill 1-0.

Ffred G: Wel, lwc?

Rob P: Gobeithio taw lwc oedd y gôl 'na, Ffred. Ond mae'n bwysig nawr taw Caerddinas sy'n sgorio nesaf!

### Geirfa

Amddiffyn – to defend

Ymosodwyr – strikers

Chwiban – whistle

Baglu – to trip